



## Perchenogion Busnes

17 Mawrth 2020

Mae ein heconomi bellach o dan fwy nag erioed o bwysau wrth i ni geisio ymateb i effaith drychinebus bosibl coronafeirws.

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu er mwyn helpu busnesau i ddelio ag effeithiau'r feirws hwn.

Rydym yn cyflwyno ar unwaith becyn cymorth ar gyfer busnesau er mwyn eu helpu i wynebu effeithiau coronafeirws a rhoi'r sicrwydd, y sefydlogrwydd a'r diogelwch sydd eu hangen arnynt.

Rydym wedi cyhoeddi dros £200 miliwn ar gyfer busnesau bach i'w helpu nhw yn ystod yr argyfwng coronafeirws. Bydd busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol o £51,000 neu'n llai yn cael rhyddhad o 100% ar eu hardrethi busnes, a bydd tafarnau sydd â gwerth ardrethol rhwng £51,000 a £100,000 yn cael gostyngiad o £5,000 ar eu bil. Caiff y broses hon ei gweinyddu gan eich awdurdod lleol.

Bydd £100 miliwn arall ar gael ar gyfer cynllun grant newydd i fusnesau bach a fydd yn canolbwyntio ar gefnogi'r sectorau sy'n wynebu'r heriau mwyaf sylweddol.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at y Canghellor heddiw er mwyn annog Llywodraeth y DU i gyflwyno pecyn llawer iawn ehangach o fesurau er mwyn cefnogi'r economi yn ystod yr argyfwng hwn nad ydym wedi gweld ei debyg o'r blaen.

Mae gwasanaeth Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru yn barod i roi cefnogaeth ichi, drwy wahanol ffordd, gan amrywio o gynllunio ariannol a chynllunio cadwyni cyflenwi i gyngor ar faterion staffio.

Os ydych yn wynebu unrhyw broblemau ar hyn o bryd neu os oes gennych unrhyw bryderon, hoffwn eich annog i gysylltu â llinell gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000 yn y lle cyntaf. Gall staff yno roi gwybodaeth a chyngor ymarferol ichi neu'ch cyfeirio at yr asiantaethau a'r sefydliadau perthnasol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn mynd ati'n rheolaidd i ddiweddarau'r canllawiau ar gyfer busnesau ar wefan Busnes Cymru: <https://businesswales.gov.wales/cy/cyngor-coronafeirws>

Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ar Goronafeirws i'w weld yma:  
<https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-action-plan>

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken Skates', with a long horizontal flourish extending to the right.

**Ken Skates AC/AM**

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru  
Minister for Economy, Transport and North Wales